TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mae rhai geiriau'n cael eu hailadrodd yn y gerdd. Esboniwch pam mae'r bardd yn eu hailadrodd nhw?

TASG 2 : PERFFORMIO

Gyda phartner neu mewn grŵp, ceisiwch greu 'perfformiad sain' o'r gerdd, sy'n cynnwys effeithiau sain. Recordiwch y 'perfformiad'.

TASG 3 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch baragraff (pum brawddeg) am sŵn y nos yn eich cartref chi. Ceisiwch gynnwys geiriau onomatopoeig ac o leiaf un gymhariaeth.

TASG 4 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Mae'r gerdd 'Sŵn' yn disgrifio'r nos yn y wlad. Byddai'n gerdd wahanol iawn petai'n disgrifio'r nos yn y dref neu'r ddinas.

Ysgrifennwch ddau bennill yn disgrifio synau'r nos yn y dref neu'r ddinas.

Ceisiwch gynnwys geiriau onomatopoeig ac o leiaf ddwy gymhariaeth, a cheisiwch ysgrifennu mewn cwpledi.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Gyda phartner, gwnewch ddwy restr sy'n disgrifio'r cadno yn y gerdd:

a) un yn rhestru'r ffeithiau amdano
b) un yn rhestru'r hyn mae'r bardd yn dychmygu sy'n wir amdano.

TASG 2 : DADANSODDI

Mae'r bardd yn defnyddio'r gair 'loncian' i ddisgrifio'r modd y mae'r cadno'n symud.

a) Chwiliwch am glip ar y we o gadno'n rhedeg.

b) Ydych chi'n credu bod 'loncian' yn air addas neu'n anaddas i ddisgrifio symudiad y cadno? Pam?

TASG 3 : YMCHWILIO / GWAITH CÔF

Mae sawl bardd Cymraeg wedi ysgrifennu cerddi am gadnoid (neu lwynogod).
Ysgrifennodd bardd enwog iawn o'r enw R. Williams Parry gerdd o'r enw 'Y Llwynog'.
Ceisiwch ddod o hyd i gopi o'r gerdd a dysgwch bedwar gair cyntaf a llinell olaf y gerdd honno ar eich cof.

TASG 4 : YSGRIFENNU (MYNEGI BARN)

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Mae hen draddodiad o hela cadnoid yng Nghymru. A ydych chi o blaid neu yn erbyn y traddodiad hwnnw?
Ysgrifennwch erthygl i gylchgrawn yr ysgol yn cyflwyno eich dadl dros neu yn erbyn hela cadnoid.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mewn parau, trafodwch pam y mae'r bardd wedi enwi mis Tachwedd a mis Mai yn benodol. Ystyriwch:

- beth sy'n arbennig am y misoedd hynny?
- a oes i'r misoedd hynny arwyddocâd ychwanegol o ryw fath?

TASG 2 : DADANSODDI

Beth, yn eich barn chi, yw ystyr y llinellau canlynol:

'... gŵyr y garddwr
nad oes gorffwyso i fod
am mai ymaflyd cyson
â'r pridd sy'n troi y rhod'?

TASG 3 : YSGRIFENNU/ CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch frawddeg gryno ond cofiadwy am bob un o'r tymhorau, gan nodi beth mae pob tymor yn ei dro yn ei olygu i chi.

Dechreuwch bob un o'ch pedair brawddeg gydag enw'r tymor ac wedyn 'i mi yw...', e.e. '*Gwanwyn i mi yw...* ŵyn bach yn prancio'n iach ar gaeau Penrallt.'

TASG 4 : YSGRIFENNU

Dychmygwch fod yr hen arddwr yn y gerdd wedi mynd mor hen fel na all drin ei ardd mwyach. Ysgrifennwch ymson sy'n darlunio'r hen ŵr un bore yn syllu allan o'i ystafell yn y tŷ yn edrych ar yr ardd sydd wedi dirywio oherwydd diffyg gofal (350 o eiriau).

CYMORTH HAWDD: Ceisiwch, o safbwynt yr hen ŵr, ddisgrifio yr ardd fel ag y mae nawr ac fel yr oedd slawer dydd, yn ogystal ag amlygu ei deimladau wrth iddo gymharu gardd y presennol a gardd y gorffennol.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Yn nwy linell ola'r gerdd, mae Gwyneth Glyn yn annog y darllenydd i droi 'hen eiriau' yn 'gerddi newydd sbon'.

Ym mha ffyrdd, dybiwch chi, y mae ysgrifennu cerddi yn debyg i'r broses o ailgylchu?

TASG 2 : DADANSODDI

a) Beth yw eich hoff ymadrodd, hoff linell neu hoff syniad yn y gerdd?

b) Esboniwch pam eich bod yn ystyried yr ymadrodd, y llinell neu'r syniad yn un arbennig o effeithiol?

TASG 3 : CREADIGOL

Dyluniwch boster sy'n annog eich cyd-ddisgyblion i ailgylchu, gan ddefnyddio dyfyniadau byrion o'r gerdd i danlinellu'r neges.

TASG 4 : PERFFORMIO / GWAITH GRŴP

Mewn grwpiau, paratowch berfformiad o'r gerdd.

Ystyriwch sut y gellwch chi ddod â'r geiriau'n fyw i'r gynulleidfa, a gwneud y neges yn un gofiadwy. (A oes modd, o bosib, troi'r gerdd yn gân neu'n rap?)

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mewn parau, trafodwch y golygfeydd, y synau a'r arogleuon yr ydych chi'n eu cysylltu â noson tân gwyllt.

TASG 2 : DADANSODDI

Ydych chi'n credu bod cyffelybu/cymharu'r pysgod i dân gwyllt yn gyffelybiaeth/gymhariaeth addas? Rhowch resymau dros eich ateb.

TASG 3 : YSGRIFENNU / CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch baragraff neu gerdd fer iawn sy'n disgrifio tân gwyllt, gan ddechrau fel hyn:

Yr oedd y tân gwyllt yn yr awyr fel pysgod...

NEU

Yr oedd y tân gwyllt
yn yr awyr
fel pysgod...

Ceisiwch barhau â'r gyffelybiaeth/gymhariaeth hon drwy'r paragraff neu'r gerdd.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch baragraff sy'n dwyn i gof ryw brofiad penodol a gawsoch chi o harddwch neu berygl byd natur (100 o eiriau).

TASG 1 : DADANSODDI

a) Pwy, yn eich tyb chi, yw'r llais sy'n siarad yn uniongyrchol â phlant Cymru yn y gerdd?

b) Pa ymadroddion neu linellau yn y gerdd sy'n cefnogi eich ateb?

TASG 2 : DADANSODDI

Pa dactegau mae llais y gerdd yn eu defnyddio er mwyn ceisio annog plant Cymru i weithredu?

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch gerdd sy'n dilyn yr un patrwm â 'Help', ond ei hysgrifennu o safbwynt plant Cymru yn ateb llais y gerdd wreiddiol.

Er enghraifft, mae'n bosib y byddai cwpled rhif 6 yn edrych rhywbeth yn debyg i'r canlynol:

> 'Ti, y blaned, yr ydym yn addo
> bod yn wahanol, ein bod ni am drio.'

TASG 4 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch stori fer (400 o eiriau) sydd â gofid am yr amgylchedd yn gefndir neu'n thema ynddi.